# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

# Ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-2026

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, cyfeirnod**: **01/12/2021**

## A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr)?

Mae fersiwn ddrafft y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn nodi ein cynigion i sicrhau newid mewn diwylliant a'r ymateb i VAWDASV yng Nghymru yn barhaol, gwella'r gefnogaeth i oroeswyr a'u plant, ac atal troseddu ac aildroseddu.

Er nad yw ein cynigion yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, byddant yn cefnogi Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a Thema 3: Creu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun) Cymraeg 2050.

Rydym yn argymell dull cyffredin i Gymru gyfan, gan ddwyn ynghyd sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â chyrff datganoledig a chyrff nad ydynt wedi'u datganoli. Ar gyfer Thema 2, byddwn yn annog cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r potensial i ddarparu mwy o wasanaethau yn Gymraeg lle nodir eu bod yn angenrheidiol drwy broses asesu anghenion.

Byddwn yn gweithio tuag at sefyllfa lle nad oes rhwystrau rhag derbyn gwasanaethau yn Gymraeg a lle cynigir gwasanaethau o'r fath yn rhagweithiol, gan ein bod yn gwerthfawrogi y gall darparu gwasanaethau Cymraeg ynddo'i hun arwain at fwy o alw am wasanaethau o'r fath.

Mae'n partneriaid yn y sector cyhoeddus eisoes yn dod o dan Safonau'r Gymraeg. Ar gyfer ein partneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector, byddwn yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd ac yn y gwasanaethau y maent yn eu darparu a gomisiynir mewn perthynas â Strategaeth VAWDASV.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â goroeswyr a chyflawnwyr i ddeall beth yw eu barn am y Strategaeth ddrafft. Byddwn yn croesawu tystiolaeth i gefnogi ein cynigion, neu awgrymiadau amgen, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith bosibl ein cynigion ar y Gymraeg. Byddwn yn diweddaru asesiadau effaith yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r Strategaeth derfynol yn 2022.

Bydd ein cynigion yn cael effaith ar gyrff cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag unigolion. Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn ein Strategaeth yw:

- Dioddefwyr / goroeswyr
- Cyflawnwyr / cyflawnwyr honedig

- Yr Heddlu / Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu / Y Farnwriaeth / Carchardai a Gwasanaethau Prawf
- Gwasanaethau cymorth VAWDASV / grwpiau cynrychioliadol (sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector)

Mae'r cyrff sector cyhoeddus y mae ein cynigion yn effeithio arnynt i gyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a byddem yn disgwyl iddynt hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd drwy gydol eu dyletswyddau. Byddwn yn annog cyrff preifat a thrydydd sector i ystyried y Gymraeg a hyrwyddo ei defnydd lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn cynnwys drwy ddefnyddio asesiadau o anghenion ar gyfer gwasanaethau a'r broses gomisiynu.

## Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau andwyol)?

Mae’r Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn strategaeth i bawb yng Nghymru. Gall VAWDASV effeithio ar unrhyw un waeth beth fo'i oedran, cefndir, hil, crefydd, gallu neu iaith. Felly, mae gan bob grŵp o fewn y cyhoedd ddiddordeb yn agenda VAWDASV.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn ymestyn i holl ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV. Bydd yr holl fesurau a gynigir ar gyfer atal VAWDASV a chefnogi goroeswyr yn berthnasol p'un a ydynt yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu unrhyw iaith arall. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

Ni fydd y Strategaeth VAWDASV ddrafft yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn annog partneriaid i sicrhau bod gan bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf fynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog. Ar gyfer partneriaid yn y sector cyhoeddus, bydd Safonau'r Gymraeg yn gymwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd egwyddor allweddol Cymraeg 2050 wedi'i hymgorffori yn y fframwaith strategol 'Mwy na geiriau...' a oedd yn anelu at gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod 2019-22. Rydym yn rhagweld y bydd cyrff perthnasol yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ni ddylai'r strategaeth ddrafft effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, nifer y siaradwyr Cymraeg na chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, bydd y targed yn Cymraeg 2050 i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn helpu i gyflawni un o amcanion ein Strategaeth. Amcan 2 yw cynyddu ymwybyddiaeth plant pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a’u grymuso i wneud penderfyniadau personol cadarnhaol. Un agwedd ar gyflawni'r amcan

hwn yw drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd felly bydd mwy o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddefnyddiol.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau a chomisiynwyr ddeall pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg, darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg a sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth ddrafft, rydym wedi gwrando ar dystiolaeth gan ein partneriaid mewn lleoliadau ledled Cymru. Byddwn yn darparu sesiynau ymgysylltu yn ystod y broses ymgynghori ac yn sicrhau bod cyflwyniadau dwyieithog ar gael. Fel rhan o'r broses ymgynghori, byddwn yn croesawu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r effaith y mae ein cynigion yn debygol o'i chael ar y Gymraeg a byddwn yn diweddaru'r asesiad effaith hwn fel y bo'n briodol.

Ein prif nod yw lleihau cyfraddau VAWDASV yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â'r Strategaeth Genedlaethol, byddwn yn monitro cynnydd drwy gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol.

Un o'r camau gweithredu arfaethedig yn y Strategaeth ddrafft yw creu 'storfa ganolog o wybodaeth' i gydlynu a lledaenu gwybodaeth am VAWDASV ac i lunio ymchwil yn y dyfodol. Byddwn yn gofyn i'r Storfa ystyried y dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r Gymraeg.